

PRIFFYRDD, CYMRU

2012 Rhif 10

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (GRANGE ROAD, CWMBRÂN, TORFAEN) 2012

Gwnaed *1 Chwefror 2012*

Yn dod i rym *8 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1990") a'r holl bwerau galluogi eraill(2).

1. Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" (*"the Council"*) yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen;

ystyr "y datblygwr" (*"the developer"*) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y rhoddwyd y caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod ar ei gyfer;

ystyr "y plan a adneuwyd" (*"the deposited plan"*) yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Grange Road, Cwmbârân, Torfaen) 2012" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd, gan eu bod wedi eu bodloni bod angen cau'r rhannau hynny i alluogi'r datblygiad i gael ei wneud fel a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn, yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor o dan Ran III o Ddeddf 1990, ar 21 Medi 2011 o dan y cyfeirnod 11/P/00101.

3. Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y rhannau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir gan ddotwaith ar y plan a adneuwyd, a byddant, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(3), yn briffyrdd sydd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd ar eu cyfer.

4. Ni chaniateir cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn:-

- (a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu planiau, er boddhad rhesymol y Cyngor, sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhannau o briffordd;
- (b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r priffyrdd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2, er boddhad rhesymol y Cyngor;
- (c) hyd nes y bydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi dechrau ac y bydd y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o'r rheidrwydd i gau'r briffordd er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac
- (ch) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr gan gadarnhau bod darpariaethau (a), (b) ac (c) o'r erthygl hon wedi eu cyflawni.

5. Os, yn union cyn i ran o briffordd gael ei chau yn unol â'r Gorchymyn hwn, bydd unrhyw offer ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o ran yr offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r rhan honno o briffordd.

6. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel hyd y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y cyhoeddir gyntaf yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990 a'i enw fydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Grange Road, Cwmbrân, Torfaen) 2012.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Chwefror 2012

G Morgan

GARETH MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

- (1) 1990 p.8.
- (2) Yn rhinwedd O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pŵerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (3) 1980 p.66

ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan o briffordd afreolaidd ei siâp o'r enw Grange Road yng Ngwmbrân, Torfaen, yn ei phen gogleddol, sydd yn 82 o fetrau yn ei man hiraf, ac yn 7 metr yn ei man lletaf a'i harwynebedd cyfan yn 452 o fetrau sgwâr, a ddynodir gan A i B ac sy'n dwyn y cyfeirnod S1 ar y plan a adnewwyd.

Rhan o briffordd afreolaidd ei siâp o'r enw Grange Road yng Ngwmbrân, Torfaen, yn ei phen gogleddol, sydd yn 45 o fetrau yn ei man hiraf, ac yn 9 metr yn ei man lletaf a'i harwynebedd cyfan yn 379 o fetrau sgwâr, a ddynodir gan C i D ac sy'n dwyn y cyfeirnod S2 ar y plan a adnewwyd.

Rhan o briffordd afreolaidd ei siâp o'r enw Grange Road yng Ngwmbrân, Torfaen, yn ei phen gogleddol, sydd yn 128 o fetrau yn ei man hiraf, ac yn 14 metr yn ei man lletaf a'i harwynebedd cyfan yn 951 o fetrau sgwâr, a ddynodir gan D i E ac sy'n dwyn y cyfeirnod S3 ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r rhannau o briffordd newydd i'w darparu

Rhan betryal ei siâp o dir cyfagos i ochr ddwyreiniol St Davids Road yng Nghwmbrân yn Nhorfaen, ac sydd hefyd yn cyfochri â hi, sydd yn 185 o fetrau yn ei man hiraf, ac yn 2 fetr yn ei man lletaf a'i harwynebedd cyfan yn 370 o fetrau sgwâr, a ddynodir gan F i G ac sy'n dwyn y cyfeirnod N1 ar y plan a adnewwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o dir cyfagos i ochr orllewinol Grange Road yng Nghwmbrân yn Nhorfaen, sydd yn 24 o fetrau yn ei man hiraf, ac yn 18 o fetrau yn ei man lletaf a'i harwynebedd cyfan yn 170 o fetrau sgwâr, a ddynodir gan H i J ac sy'n dwyn y cyfeirnod N2 ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 3

Y Datblygiad Arfaethedig

Datblygiad arfaethedig safle Arvin Meritor wrth Grange Road yng Nghwibrân, Torfaen i fod yn safle defnydd cymysg sydd i gynnwys siop manwerthu bwyd, gorsaf betrol, unedau manwerthu ar eu pennau eu hunain, pont droed, gwesty, tafarn/bwyty a swyddfeydd ac ailwampio ac estyn yr uned ddiwydiannol sydd yno'n barod a'r maes parcio sy'n gysylltiedig â hi.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (GRANGE ROAD, CWMBRÂN, TORFAEN) 2012

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn ac i ddarparu rhannau newydd o briffordd fel y'u disgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud yr awdurdodir cau'r rhannau o briffordd. Bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol os yw'r caniatâd cynllunio yn dod i ben neu yn cael ei ddirymu.

Yn ystod y cyfnod o 6 wythnos o 8 Chwefror 2012, gellir edrych ar gopiau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Glantorfaen Road, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 6YB neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Os bydd unrhyw berson yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw un neu rai o'r Darpariaethau sydd ynddo, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. bod ei fuddiannau wedi cael eu rhagfarnu'n sylweddol oherwydd methiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw o fewn 6 wythnos i 8 Chwefror 2012 wneud cais i'r Uchel Lys am atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth a geir ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar www.cymru.gov.uk (detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth, Cymru', 'Gorchmynion Cau TCPA', '2012').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

M D Burnell

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan o briffordd afreolaidd ei siâp o'r enw Grange Road yng Ngwmbrân, Torfaen, yn ei phen gogleddol, sydd yn 82 o fetrau yn ei man hiraf, ac yn 5 metr yn ei man lletaf a'i harwynebedd cyfan yn 450 o fetrau sgwâr, a ddynodir gan A i B ac sy'n dwyn y cyfeirnod S1 ar y plan a adnewyd.

Rhan o briffordd afreolaidd ei siâp o'r enw Grange Road yng Ngwmbrân, Torfaen, yn ei phen gogleddol, sydd yn 45 o fetrau yn ei man hiraf, ac yn 9 metr yn ei man lletaf a'i harwynebedd cyfan yn 379 o fetrau sgwâr, a ddynodir gan C i D ac sy'n dwyn y cyfeirnod S2 ar y plan a adnewyd.

Rhan o briffordd afreolaidd ei siâp o'r enw Grange Road yng Ngwmbrân, Torfaen, yn ei phen gogleddol, sydd yn 125 o fetrau yn ei man hiraf, ac yn 9 metr yn ei man lletaf a'i harwynebedd cyfan yn 951 o fetrau sgwâr, a ddynodir gan D i E ac sy'n dwyn y cyfeirnod S3 ar y plan a adnewyd.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r rhannau o briffordd newydd i'w darparu

Rhan betryal ei siâp o dir cyfagos i ochr ddwyreiniol St Davids Road yng Nghwmbrân yn Nhorfaen, ac sydd hefyd yn cyfochri â hi, sydd yn 185 o fetrau yn ei man hiraf, ac yn 2 fetr yn ei man lletaf a'i harwynebedd cyfan yn 370 o fetrau sgwâr, a ddynodir gan F i G ac sy'n dwyn y cyfeirnod N1 ar y plan a adnewwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o dir cyfagos i ochr orllewinol Grange Road yng Nghwmbrân yn Nhorfaen, sydd yn 24 o fetrau yn ei man hiraf, ac yn 18 o fetrau yn ei man lletaf a'i harwynebedd cyfan yn 170 o fetrau sgwâr, a ddynodir gan H i J ac sy'n dwyn y cyfeirnod N2 ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 3

Y Datblygiad Arfaethedig

Datblygiad arfaethedig safle Arvin Meritor wrth Grange Road yng Nghwmbrân, Torfaen i fod yn safle defnydd cymysg sydd i gynnwys siop manwerthu bwyd, gorsaf betrol, unedau manwerthu ar eu pennau eu hunain, pont droed, gwesty, tafarn/bwyty a swyddfeydd ac ailwampio ac estyn yr uned ddiwydiannol sydd yno'n barod a'r maes parcio sy'n gysylltiedig â hi, yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor o dan Ran III o Ddeddf 1990, ar 21 Medi 2011 o dan y cyfeirnod 11/P/00101.